**COFNODION CYFARFOD O'R CYNGOR SIR A GYNHALIWYD YN NEUADD Y SIR AC AR ZOOM DDYDD IAU, 5 HYDREF 2023**

YN BRESENNOL
Y Cynghorydd Sir B Baynham (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Sir G W Ratcliffe, D Bebb, G Breeze, J Berriman, J Charlton, R Church, T Colbert, S Cox, A W Davies, A Davies, B Davies, B Davies, S C Davies, D Edwards, L George, J Gibson-Watt, I Harrison, K Healy, H Hulme, P James, A Jenner, E A Jones, E Jones, G D Jones, G E Jones, J R Jones, A Kennerley, C Kenyon-Wade, P Lewington, K Lewis, P E Lewis, I McIntosh, S McNicholas, DW Meredith, C Johnson-Wood, G Mitchell, G Morgan, WD Powell, G Preston, G Pugh, J Pugh, L Rijnenberg, L Roberts, P Roberts, C Robinson, E Roderick, D Selby, D A Thomas, R G Thomas, J Brignell-Thorp, E Vaughan, C Walsh, A Williams, D H Williams, J M Williams a S L Williams

| 1. | **YMDDIHEURIADAU** |
|---|---|

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Sir B Breeze a G Morgan.

| 2. | **COFNODION** |
|---|---|

Awdurdodwyd y Cadeirydd i lofnodi cofnodion y ddau gyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Gorffennaf 2023 fel cofnodion cywir.

| 3. | **DATGANIADAU O FUDDIANT** |
|---|---|

Dywedodd y Cynghorydd Sir Gareth E Jones ei fod ef yn llywydd CFfI Aberedw ac yn drysorydd Ffederasiwn Brycheiniog.

| 4. | **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD** |
|---|---|

Rhoddodd y Cadeirydd fanylion am ei hymrwymiadau, gan gynnwys yr anrhydedd o groesawu ei Fawrhydi'r Brenin i Aberhonddu ar 20 Gorffennaf. Siaradodd am waith hosbis Tŷ Gobaith a oedd â stondin yn y cyntedd. Llongyfarchodd y Cynghorwyr Benjamin Breeze a Karl Lewis oedd wedi dod yn dadau, a diolchodd i dri Chynghorydd a oedd yn ymddeol, Matt Beecham, Sarah-Jayne Beecham ac Anita Cartwright am eu gwasanaeth. Diolchodd hefyd i Nigel Brinn a oedd yn gadael yr awdurdod i ddod yn Brif Weithredwr Cyngor Dosbarth Fforest y Ddena ac i Jack Straw am ei waith fel Prif Weithredwr Dros Dro. Yn olaf, llongyfarchodd Emma Palmer ar ei phenodiad yn Brif Weithredwr.

| 5. | **CYHOEDDIADAU'R ARWEINYDD** |
|---|---|

Dywedodd yr Arweinydd fod y gyfran gyntaf o £4m o gyllid Tyfu Canolbarth Cymru wedi dod i law. Cyfeiriodd at y prosiect i ddatblygu 18 o gartrefi cymdeithasol ar safle cyn dafarn y Red Dragon. Dywedodd fod yr awdurdod yn gweithio'n agos gyda Chyfoeth Naturiol Cymru i ymdrin â'r effaith negyddol yr oedd ffosffadau yn ei gael ar ddatblygiadau yn ne'r sir. Cyfeiriodd yr Arweinydd

at ymweliad y Prif Weinidog â Dechrau'n Deg ac i weld treial ailgylchu yn Aberhonddu. Dywedodd fod y Cyngor yn falch o fod y cyntaf yng Nghymru i lofnodi siarter gwrth hiliaeth UNSAIN ac y byddai'n ymuno â Phartneriaeth y Gororau gyda chynghorau cyfagos yng Nghymru a Lloegr ym mis Tachwedd. Diweddodd trwy ddiolch i Nigel Brinn am ei wasanaeth a llongyfarchodd Matt Perry a Diane Reynolds ar eu penodiadau fel cyfarwyddwyr interim ac Emma Palmer ar ei phenodiad yn Brif Weithredwr.

| 6. | CWESTIYNAU CYHOEDDUS |
|---|---|

6.1. **Cwestiwn i'r Aelod Cabinet dros Bowys yn Dysgu gan Laura Hares**

Beth sy'n cael ei wneud i hyrwyddo lles a chyfyngu ar brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod ymhlith ein plant ADY mewn ysgolion prif ffrwd? Pam mae'n cymryd 1-2 flynedd ac yn aml achos tribiwnlys fel arfer ym Mhowys cyn i anghenion ein Plant ADY gael eu diwallu? Pwy sy'n cael ei ddwyn i gyfrif am esgeuluso anghenion ein plant a pham nad yw ymyrraeth gynnar byth yn cael ei rhoi ar waith? Mae fy mhlentyn bellach ar amserlen ran amser iawn ac mae ei bediatregydd wedi mynegi'n glir sut mae'r ffaith nad yw CSP yn diwallu ei anghenion yn creu problemau iechyd corfforol a meddyliol ac eto dros flwyddyn ar ôl i'r ysgol ofyn am gymorth trwy gael Cynorthwyydd Addysgu 1:1 iddo, nid oes dim wedi digwydd hyd yma. Pryd fydd ein corff addysg yn dal i fyny â'r cymorth a gynigir dros y ffin yn Swydd Amwythig a chyda'r gofynion cyfreithiol?

Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r fframwaith ar gyfer gwreiddio ymagwedd ysgol gyfan at les emosiynol a meddyliol fel canllawiau statudol i gyrff llywodraethu ysgolion meithrin, cynradd, uwchradd, canol, unedau cyfeirio disgyblion (UCD), ac ysgolion arbennig ac awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae'r mwyafrif o ysgolion ym Mhowys wedi cael hyfforddiant i gefnogi Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs) a/neu Ymarfer sy'n Ystyriol o Drawma. Bydd yr ysgolion unigol yn ceisio gweithredu'r hyfforddiant o fewn eu hymarfer dyddiol er mwyn cefnogi'r plant a'r bobl ifanc sydd angen cymorth.

Mae Powys yn cynnig ystod o wasanaethau cymorth i ysgolion y gellir eu cyrchu i gynorthwyo gyda chyngor ac arweiniad cynnar, trwy rôl swyddog lles, a thrwy ddarparu athrawon arbenigol a gwasanaeth seicoleg addysg. Yn ogystal, cynigir rhaglenni i gefnogi iechyd emosiynol plant trwy raglen o'r enw ELSA (Cynorthwywyr Cefnogi Llythrennedd Emosiynol), a bydd ysgolion unigol yn penderfynu ar briodoldeb cael mynediad i'r adnodd hwn a'i roi ar waith.

Mae yna broses genedlaethol, a bennir trwy ddogfennaeth statudol sy'n disgrifio'r prosesau ar gyfer asesu a chwrdd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) plant a phobl ifanc. Cedwir at hyn gan Gyngor Sir Powys, ond ceir ambell achlysur pan fo amgylchiadau arbennig, megis achosion cymhleth neu anghytundebau sy'n ymestyn yr amserlenni. Mae ysgolion ac awdurdodau lleol yn cael eu harolygu'n rheolaidd gan gyrff statudol, fel Estyn, i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â chanllawiau a phrosesau statudol.

Mae amserlenni rhan amser yn gytundeb lleol rhwng ysgol a rhiant, ac nid yw'r awdurdod lleol yn ymyrryd â'r penderfyniadau hyn. Ni ddylai teuluoedd deimlo rheidrwydd i gytuno ar amserlen lai, ond dylent weithio gyda'r ysgol i sicrhau bod cynllun cymorth bugeiliol yn cael ei weithredu, gyda thargedau realistig a chyraeddadwy, sy'n cael eu hadolygu a'u gwerthuso'n rheolaidd. Mae'r

awdurdod lleol yn dirprwyo cyllid ADY i bob ysgol er mwyn cefnogi anghenion plant. Mae ymchwil a gynhaliwyd gan y Gronfa Gwaddol Addysg (EEF) yn dangos bod cymorth 1:1 yn cael effaith andwyol ar gynnydd plant, ac yn amharu ar eu sgiliau annibyniaeth; er y cydnabyddir bod adegau pan fo angen pecyn cymorth mwy pwrpasol ar blant i ddiwallu anghenion penodol, ac yn arbennig pan fo yna gyflwr meddygol difrifol. Mae paneli ym Mhowys yn rhai aml-asiantaeth, ac maent yn gwneud penderfyniadau ar sail y wybodaeth a ddarperir iddynt gan ysgolion, teuluoedd ac asiantaethau eraill. Mae darpariaeth a phrosesau addysg yn amrywio rhwng awdurdodau lleol ac yn benodol mae deddfwriaeth wahanol yng Nghymru a Lloegr. Mae'r cymorth a ddarperir gan Gyngor Sir Powys yn bodloni canllawiau statudol ac yn cydymffurfio â gofynion a osodir gan y gyfraith. Ni fyddem yn gwneud sylwadau cyhoeddus am achosion unigol a byddwn bob amser yn parchu preifatrwydd a chaniatâd plant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

Mewn ymateb i'r cwestiwn atodol pam fod y Cyngor yn gwario cymaint ar ymgyfreitha os oedd yn dilyn y cod ymarfer ADY a diogelu plant, dywedodd yr Aelod Cabinet dros Bowys yn Dysgu y byddai swyddogion yn ymateb yn uniongyrchol i Ms Hares.

6.2. **Cwestiwn i'r Aelod Cabinet dros Bowys Wyrddach gan Philip Ellison**

Pa gasgliadau a fethwyd o ran casgliadau biniau'r deunydd wedi'i ailgylchu ym mhedair ward Llandrindod? Pa gasgliadau a fethwyd o ran casgliadau biniau'r deunydd wedi'i ailgylchu yn Wardiau Llansanffraid a Llanrhaeadr? Pam fod yna gymaint o wahaniaeth?

Rwy'n gwneud yr ymholiadau hyn gan fy mod yn meddwl ei fod yn peri risg iechyd i bobl oedrannus sy'n rhoi eu biniau allan bob dydd Mawrth yn fy ardal i ac yna'n gorfod dod â nhw yn ôl i mewn eto gan nad ydy'r lori'n dod am yr wythnos honno.

Hoffwn gymryd y cyfle hwn hefyd i nodi bod Swydd Amwythig (a llawer o rai eraill) yn cynnwys unrhyw newidiadau ar eu tudalen hafan, ac rwy'n siŵr y gellid gwneud hyn cyn gynted ag y bydd problem yn codi naill ai'r noson cynt neu am 7 y bore ar wefan Cyngor Powys.

**Ymateb**

Nid yw'n bosibl rhoi union ateb i ran gyntaf y cwestiwn hwn gan nad yw rowndiau'n cyfateb i wardiau etholiadol. Fodd bynnag, mae'r data canlynol ar gael:

Yn 2023 hyd yma fe fethwyd 12 rownd sy'n cynnwys eiddo o fewn pedair ward Llandrindod, gyda 4 ohonynt oherwydd tywydd garw. Mae hyn yn cymharu â 18 rownd a fethwyd sy'n cynnwys eiddo yn wardiau Llansantffraid a Llanrhaeadr (5 ohonynt oherwydd tywydd garw) yn ystod yr un cyfnod.

Ond i roi hyn mewn ychydig mwy o gyd-destun, byddai 2364 eiddo unigol wedi cael eu heffeithio yn wardiau Llandrindod o gymharu â 1352 yn Llansanffraid a Llanrhaeadr. Mewn termau ystadegol, mae hyn yn cyfateb i 1.8 gwaith ar gyfer pob eiddo yn Llandrindod ac 1.7 yn Llansanffraid a Llanrhaeadr.

Y rheswm am yr anghysondeb yw bod y wardiau hyn yn cael eu gwasanaethu o wahanol ddepos yng nghanol a gogledd Powys. Mae'r problemau o ran recriwtio staff wedi bod yn fwy difrifol yng ngogledd y sir ac mae hon yn broblem a brofwyd gan awdurdodau lleol eraill yng Ngogledd Cymru yn ogystal â'r sector preifat.

Rydym yn gwerthfawrogi ei bod yn anhwylus i drigolion aros am wythnos ychwanegol am eu casgliadau ailgylchu, ond os caiff y deunyddiau eu golchi a'r bwyd ei storio'n ddiogel, ni ddylai hyn fod yn broblem iechyd. Rydym yn ceisio sicrhau na chaiff rowndiau gwastraff gweddilliol eu methu oherwydd y cylch tair wythnos o gasgliadau ac rydym yn dal i fyny cyn gynted â phosibl os bydd hyn yn digwydd.

O ran rhoi gwybod i drigolion am gasgliadau a fethwyd, yn gyffredinol nid yw'n bosibl gwneud hyn y noson gynt gan na fyddem yn ymwybodol o salwch tymor byr y staff a cherbydau'n torri i lawr tan y diwrnod dan sylw. Cyn gynted ag y byddwn yn ymwybodol fod rownd yn mynd i gael ei methu, anfonir neges at yr holl Gynghorwyr yr effeithir arnynt, hysbysir y ddesg gymorth, a chaiff ein ffurflen rhoi gwybod am finiau a fethwyd a gwybodaeth am y diwrnod casglu eu diweddaru ar y wefan fel os bydd rhywun yn rhoi eu cyfeiriad y byddant yn cael gwybod am y newid. Er nad yw rowndiau unigol a fethwyd yn cael eu rhoi ar y cyfryngau cymdeithasol, mae yna negeseuon rheolaidd yn gofyn i bobl checio ar-lein a yw eu casgliad yn cael ei fethu.

Mae'r gwasanaeth yn gweithio'n galed iawn i leihau'r amhariadau hyn a bu peth llwyddiant wrth recriwtio staff ychwanegol. Y mae hon yn broblem barhaus, ond fe ddylai'r casgliadau gobeithio fod yn sefydlogi bellach.

Hysbyswyd y Cyngor nad oedd Mr Ellison yn gallu bod yn bresennol, ond dywedodd yr Aelod Cabinet y byddai'n hapus i ymateb i gwestiwn atodol pe bai un yn cael ei gyflwyno.

6.3. **Cwestiwn i'r Aelod Cabinet dros Bowys Gysylltiedig gan Penny Higgs**

Ym mha achosion na fyddai'r Pwyllgor Cynllunio yn gwthio am gamau gorfodi, pan fo achosion difrifol o dorri rheolau cynllunio?

**Ymateb**

Mae dull y Cyngor o ymdrin â gorfodi rheolau cynllunio i'w weld ar y dudalen we ganlynol.
Gorfodi Cynllunio - Cyngor Sir Powys

Gellir darllen Polisi a Gweithdrefn Gorfodi Cynllunio a gymeradwywyd gan y Cyngor ar y dudalen we ganlynol. Mae'r polisïau'n nodi lle byddai camau gorfodi gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn fanteisiol neu ddim yn fanteisiol:
Polisi a Gweithdrefn Gorfodi Cynllunio - Cyngor Sir Powys

Nid oedd cwestiwn atodol.

| 7. | PENODI SWYDDOG CANLYNIADAU INTERIM A SWYDDOG COFRESTRU ETHOLIADOL |
|---|---|

Yn dilyn penodi Emma Palmer yn Brif Weithredwr, tynnwyd yr adroddiad hwn yn ôl.

| 8. | PLEIDLAIS SENGL DROSGLWYDDADWY |
|---|---|

Ystyriodd y Cyngor adroddiad ar y system Pleidleisio Sengl Trosglwyddadwy y gallai awdurdodau lleol yng Nghymru ddewis ei mabwysiadu o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Pe bai'r Cyngor yn penderfynu y byddai'n hoffi ystyried symud i'r system STV, byddai'n ofynnol iddo ymgynghori â phleidleiswyr, pob Cyngor Tref a Chymuned a phobl neu gyrff priodol eraill ac yna ystyried canlyniadau'r ymgynghoriad a phenderfynu a ddylid mabwysiadu'r system STV ai peidio ar gyfer ei etholiadau lleol yn 2027.

Cynigiodd y Cynghorydd Sir Pete Lewington y dylid gohirio ystyried yr adroddiad tan gyfarfod llawn nesaf y Cyngor ar 7 Rhagfyr, ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Sir Amanda Jenner. O 34 pleidlais i 25

**PENDERFYNWYD gohirio ystyried yr adroddiad ar Bleidleisio Sengl Trosglwyddadwy tan gyfarfod nesaf y Cyngor llawn.**

| 9. | PWYLLGOR CRAFFU POWYS AR Y BGC (PSB) |
|---|---|

Rhoddodd y Cyngor ystyriaeth i argymhellion y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar benodiadau i Bwyllgor Craffu'r BGC. Cynigiwyd gan y Cynghorydd Sir James Gibson-Watt ac eiliwyd yn briodol ac o 59 pleidlais i 1 gydag 1 yn ymatal

**PENDERFYNWYD**

1. **diwygio aelodaeth Pwyllgor Craffu'r BGC i gynnwys Aelodau cyfetholedig o sefydliadau eraill a hefyd cydymffurfio â'r darpariaethau a ganlyn:**

   - **Uchafswm o dri Aelod cyfetholedig (yn unol â'r Canllawiau Statudol sy'n deillio o Fesur Llywodraeth Leol 2011);**
   - **Na all yr aelodau cyfetholedig hynny:**
   - **gael eu tynnu o weithrediaeth y sefydliad.**
   - **fod yn swyddogion o'r sefydliad.**
   - **fod yn gynrychiolwyr Cyngor Sir Powys ar y sefydliadau hynny**

2. **diwygio Cylch Gorchwyl Pwyllgor Craffu'r BGC i'r perwyl y byddai'r gofyniad am gyfarfodydd y Pwyllgor yn cael ei osod fel isafswm o un ac uchafswm o ddau y flwyddyn**

3. **Awdurdodi Pennaeth y Gwasanaeth Cyfreithiol a'r Swyddog Monitro i ddiwygio Adran 7 y Cyfansoddiad a**

**gwneud unrhyw ddiwygiadau canlyniadol eraill a allai fod yn ofynnol.**

Cynigodd y Cynghorydd Sir James Gibson-Watt ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Matthew Dorrance fod y Cadeirydd a'r Swyddog Monitro yn derbyn enwebiadau.

**PENDERFYNWYD bod y Cadeirydd a'r Swyddog Monitro yn derbyn enwebiadau ar yr amod eu bod yn cael cyhoeddusrwydd eang.**

| 10. | PENODIADAU I GYRFF ALLANOL |
|---|---|

**Cronfa Ysgoloriaeth Sir Frycheiniog**

Enwebwyd y Cynghorwyr Sir William Powell ac Iain McIntosh. Yn dilyn pleidlais

**PENDERFYNWYD penodi'r Cynghorydd Sir William Powell i Gronfa Ysgoloriaeth Sir Frycheiniog.**

**Pwyllgor Ymgynghorol Mordwyo Gwy**

Enwebwyd y Cynghorydd Sir Corrina Kenyon-Wade.

**PENDERFYNWYD penodi'r Cynghorydd Sir Corrina Kenyon-Wade i Bwyllgor Ymgynghorol Mordwyo Gwy.**

| 11. | RHYBUDD O GYNNIG - CYNNIG I ADFER Y TÂL PARCIO CEIR HYD AT 1 AWR MEWN MEYSYDD PARCIO ARHOSIAD HIR DYNODEDIG. |
|---|---|

Rhoddodd y Cyngor ystyriaeth i'r rhybudd o gynnig a ganlyn a gynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Gareth E Jones ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Jeremy Pugh:

1. Ailgyflwyno'r cyfnod parcio hyd at 1 awr i'r holl feysydd parcio arhosiad hir dynodedig presennol sy'n cael eu cynnal gan yr awdurdod, sydd ar hyn o bryd yn destun tâl parcio o 1 Tachwedd 2023.

2. Y dylid gosod y tâl am hyd at awr o barcio yn y meysydd parcio arhosiad hir dynodedig ar £1.40 yn unol â'r tâl am yr un cyfnod yn y meysydd parcio arhosiad byr dynodedig.

Cynigiodd y Cynghorydd Sir Pete Lewington welliant a eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Iain McIntosh:

Dileu 2 a rhoi'r canlynol yn ei le:-

Y dylid ailgyflwyno'r tâl am barcio hyd at awr mewn meysydd parcio arhosiad byr ac arhosiad hir ar £1.00 o 1 Tachwedd 2023.

Rhoddwyd y gwelliant hwn i bleidlais ac fe'i collwyd o 24 pleidlais i 35.

Cynigiodd y Cynghorydd Sir Gareth Ratcliffe welliant a eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Angela Davies:

Yng ngoleuni'r cynnig sy'n dod gerbron, rydym yn cynnig bod y cyngor yn gohirio unrhyw newid mewn taliadau parcio ac yn cyfeirio'r cynnig gwreiddiol at y grŵp trawsbleidiol i adolygu meysydd parcio a sefydlwyd gan yr Aelod Portffolio i'w ystyried gydag opsiynau eraill, gan gynnwys opsiynau i ymgynghori â chymunedau ac y dylai'r cyngor ofyn eu barn ynghylch a hoffent i Gyngor Sir Powys ailgyflwyno'r tâl parcio am 1 awr yn eu maes parcio arhosiad hir cymunedol neu i roi'r gorau i'r 1 awr ac aros gydag isafswm o 2 awr gyda 50c o bob tocyn 2 awr a roddir yn mynd yn ôl i'r gymuned i'w helpu i gynnal cyfleusterau twristiaeth fel toiledau cyhoeddus a gweithgareddau cymunedol. Bydd unrhyw argymhellion gan y bwrdd adolygu yn cael eu dwyn yn ôl i'r pwyllgor craffu cyn iddynt gael eu hystyried gan y cabinet.

Rhoddwyd y gwelliant i bleidlais ac o 30 pleidlais i 27 gydag 1 yn ymatal

**PENDERFYNWYD bod y cyngor yn gohirio unrhyw newid mewn taliadau parcio ac yn cyfeirio'r cynnig gwreiddiol at y grŵp trawsbleidiol i adolygu meysydd parcio a sefydlwyd gan yr Aelod Portffolio i'w ystyried gydag opsiynau eraill, gan gynnwys opsiynau i ymgynghori â chymunedau ac y dylai'r cyngor ofyn eu barn ynghylch a hoffent i Gyngor Sir Powys ailgyflwyno'r tâl parcio am 1 awr yn eu maes parcio arhosiad hir cymunedol neu roi'r gorau i'r 1 awr ac aros gydag isafswm o 2 awr gyda 50c o bob tocyn 2 awr a roddir yn mynd yn ôl i'r gymuned i'w helpu i gynnal cyfleusterau twristiaeth fel toiledau cyhoeddus a gweithgareddau cymunedol. Bydd unrhyw argymhellion gan y bwrdd adolygu yn cael eu dwyn yn ôl i'r pwyllgor craffu cyn iddynt gael eu hystyried gan y cabinet.**

Fe wnaeth y Cyngor ohirio am 13:05 ac fe wnaeth y Cynghorwyr ailymgynnull am 14:00.

## 12. CYFLWYNIAD GAN CFFI BRYCHEINIOG, MALDWYN A MAESYFED

Cafwyd cyflwyniad gan aelodau o Glybiau Ffermwyr Ifanc Brycheiniog, Maesyfed a Maldwyn ar eu gwaith mewn 45 o glybiau ar draws y sir.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Genedlaethau'r Dyfodol y byddai'n adrodd yn ôl ar ba ganran o gysylltiadau pobl ifanc oedd yn cynnwys cysylltiadau â'r CFfI. Byddai hefyd yn mynd ar drywydd y pwynt nad oedd y CFfI wedi'u crybwyll o gwbl ar wefan y Cyngor.

## 13. CWESTIYNAU YN UNOL Â'R CYFANSODDIAD

### 13.1. Cwestiwn i'r Aelod Cabinet dros Genedlaethau'r Dyfodol gan y Cynghorydd Elwyn Vaughan

Mae'r Cyngor hwn ar sawl achlysur wedi mynegi cefnogaeth i'r Gymraeg ac mae'r ewyllys gwleidyddol trawsbleidiol yn glir o ran y dymuniad hwnnw. Ond wrth dynnu sylw'r Adran Gynllunio yn ddiweddar at arwyddion stryd uniaith Saesneg ar ddatblygiad tai newydd yng Ngheri yr ymateb oedd nad nhw oedd yn gyfrifol, er ei bod yn stad newydd o dan oruchwyliaeth yr Adran Gynllunio! Dywedwyd mai'r Adran Briffyrdd oedd ar fai.

Wrth holi'r Adran Briffyrdd yr ymateb oedd mai'r datblygwr oedd ar fai ac y byddai'r datblygiad yn cael ei gwblhau o fewn y flwyddyn. Roedd hyn er bod y datblygiad eisoes wedi'i gwblhau a bod yna rywun yn byw ym mhob un o'r tai! Yr unig gasgliad y gall rhywun ddod iddo yw bod pawb yn ceisio beio rhywun arall yn lle cymryd cyfrifoldeb yn y gobaith y bydd y mater yn cael ei anghofio. Wel, gallaf eich sicrhau na chaiff ei anghofio.

Yng ngoleuni hyn, eich cyfrifoldeb chi dros y Gymraeg o fewn y Cyngor, disgwyliadau'r Safonau Iaith gan y Comisiynydd, dymuniad y Cyngor hwn a synnwyr cyffredin, a gytunwch â mi fod y sefyllfa hon yn anfoddhaol ac y byddwch yn ceisio mynd at wraidd y mater i unioni'r sefyllfa?

**Ymateb**
O safbwynt Safonau'r Gymraeg, mae safbwynt Powys yn glir. Dylai pob arwydd stryd fod yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn cael ei dangos fel ei bod yn debygol o gael ei darllen yn gyntaf, hy i'r chwith neu uwchben y Saesneg. Dilynwyd Safonau'r Gymraeg gennym gan fod y swyddog enwi strydoedd wedi gwrthwynebu cais gan Gyngor Cymuned Ceri am enwau strydoedd uniaith Saesneg. Fe wnaethom gyfieithu'r enwau Saesneg a awgrymwyd gan y cyngor cymuned.

Nid oedd cwestiwn atodol.

13.2. **Cwestiwn i'r Aelod Cabinet dros Bowys yn Dysgu gan y Cynghorydd Elwyn Vaughan**

Yn ystod y trafodaethau ar Bartneriaeth y Gororau yng nghyfarfod Cabinet 19/09 nodwyd bod yr Aelod Portffolio dros faterion Addysg wedi datgan -

Mae Powys yn bwriadu cynnig addysg Gymraeg i blant o Loegr fel rhan o bartneriaeth newydd gyda'r siroedd dros y ffin.
Bydd Powys yn cydweithredu â Sir Fynwy, Swydd Henffordd a Swydd Amwythig ar faterion gan gynnwys trafnidiaeth, tai, yr amgylchedd ac ynni.

Dywedodd yr aelod portffolio dros faterion Addysg y Cyngor, Pete Roberts "mae llawer o deuluoedd yng Nghroesoswallt yn dod o gefndiroedd Cymraeg eu hiaith". "Felly rwy'n gobeithio mai un o'r cyfleoedd hyn fydd gweithio gyda chydweithwyr yng Nghroesoswallt ac ar hyd y ffin i ymestyn y gallu i deuluoedd gymryd rhan mewn addysg cyfrwng Cymraeg."

Wrth nodi hyn, pa ystyriaeth a roddwyd i Siarter Ieithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol Ewrop a'r pwerau hynny yn y cyd-destun hwn?

O ystyried bod adolygiad yn cael ei gynnal o ysgolion yn ardal Llanfyllin, gan gynnwys dyfodol Ysgol Bro Cynllaith, sut y rhagwelir y byddai'r dasg o ddarparu mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg i'r rhai o Groesoswallt yn cael ei chyflawni'n well, a beth yw'r amserlen?

**Ymateb**
Eich gohebiaeth flaenorol â mi mewn perthynas â Siarter Ieithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol Ewrop oedd un o'r ffactorau wrth nodi'r cyfle posib hwn gan ei fod yn cynnig ffordd ymlaen o ran cadarnhau cyfrifoldebau am ddarparu cludiant ysgol.

O ran yr effaith ar adolygiad y dalgylch ehangach mae'r ffordd ymlaen a gymeradwywyd gan y Cabinet yn nodi Ysgol Gynradd Llanrhaeadr ym Mochnant fel safle ar gyfer ehangu addysg cyfrwng Cymraeg yng Ngogledd Orllewin y dalgylch ac mae cyfleoedd pellach mewn Ffrydiau Cymraeg neu addysg cyfrwng Cymraeg o fewn cyrraedd i Groesoswallt a'r Amwythig.

Yn y tymor canolig mae'r adolygiad hefyd yn nodi'r posibilrwydd o ddatblygu mwy o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn un o'r aneddiadau ar hyd yr A483 rhwng y Trallwng a'r ffin sirol. Fel cam cyntaf mae'r cynlluniau'n galw am wella darpariaeth Cylchoedd Meithrin a Ti a Fi yn yr ardal. O ystyried y cysylltiadau ffyrdd da i Groesoswallt, efallai y bydd cymorth o'r ochr arall i'r ffin yn cryfhau'r achos busnes dros symud ymlaen â'r cynnig hwn.

Nid oedd cwestiwn atodol.

13.3. **Cwestiwn i'r Arweinydd gan y Cynghorydd Aled Davies**

**Faint mae aelodaeth CLILC (WLGA) yn ei gostio i'r Cyngor?**

Tanysgrifiad blynyddol CLILC (WLGA) yw £115,799.66 (£96,499.72 ynghyd â TAW £19,299.94).

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) yn sefydliad gydag aelodaeth sy'n cynrychioli pob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru, mae'r 3 awdurdod tân ac achub a'r 3 awdurdod parc cenedlaethol yn aelodau cyswllt.

Mae CLILC yn cynrychioli buddiannau llywodraeth leol ac yn hyrwyddo democratiaeth leol yng Nghymru. Ei phrif ddibenion yw hybu gwell llywodraeth leol, hybu ei henw da a chefnogi awdurdodau i ddatblygu polisïau a blaenoriaethau a fydd yn gwella gwasanaethau cyhoeddus a democratiaeth.

Mae CLILC yn sefydliad trawsbleidiol a arweinir yn wleidyddol sy'n ceisio rhoi llais cryf i lywodraeth leol ar lefel genedlaethol. Mae aelodaeth o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn rhoi sedd wrth y bwrdd mawr i'r Cyngor hwn wrth drafod gyda a lobïo Llywodraeth Cymru. Mae'n rhoi mynediad at Weinidogion a dylanwad na fyddai gan gynghorau unigol mohono ar eu pen eu hunain.

Mae CLILC yn cael ei chydnabod dan y Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol statudol fel y corff negodi sy'n cynrychioli llywodraeth leol. Mae llefarwyr CLILC yn cynrychioli llywodraeth leol gyfan mewn trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a'r holl bartneriaid cenedlaethol eraill yn eu meysydd gwasanaeth penodol. Yn ogystal, mae tîm bach o swyddogion yn darparu arbenigedd a chefnogaeth broffesiynol i gynorthwyo yn y broses lobïo, gwella a datblygu polisi.

Mae CLILC yn adnodd i Gynghorau ei ddefnyddio a rhannu arbenigedd ac arfer da trwy rwydweithiau aelodau cabinet a phapurau polisi. Mae Prif Weithredwr CLILC wedi cynghori'r Cyngor hwn yn ddiweddar am benodi Prif Weithredwr newydd. Mae hefyd yn cynnig cymorth i ddatblygu aelodau ac ers blynyddoedd

mae’r cyngor hwn wedi elwa drwy anfon cynghorwyr o bob grŵp gwleidyddol i’r academi arweinyddiaeth.

Gofynnodd y Cynghorydd Davies fel cwestiwn atodol a fyddai’r Arweinydd yn awgrymu i CLILC ei bod yn diwygio ei hun fel ei bod yn cynrychioli Cymru gyfan neu’n ystyried atal y taliad. Dywedodd yr Arweinydd ei bod yn wir werth parhau yn aelod o CLILC a nododd y gefnogaeth a roddai i'r Cyngor a'i swyddogion. Nododd hefyd fod CLILC yn cael adolygiad mewnol a dywedodd y byddai'n werth gweld canlyniad yr adolygiad hwnnw.

13.4. Cwestiwn i'r Arweinydd gan y Cynghorydd Gwynfor Thomas

Pa gyfathrebiadau mae Cyngor Sir Powys wedi'u cael gyda Bute Energy/Green Gen Cymru?

**Ymateb**

Diolch yn fawr am eich cwestiwn diddorol, mae’n codi cwestiwn pellach sef i ba raddau y dylem ni, Cyngor Sir Powys, ymgysylltu â darpar fuddsoddwyr mawr sy'n ceisio datblygu ym Mhowys, yn yr achos hwn ym maes ynni a seilwaith. Dim ond un o blith nifer o gwmnïau sy’n cynnig buddsoddiadau gwerth miliynau o bunnoedd yw Bute Energy, y mae eu cyfanswm yn llawer mwy na Bargen Twf Canolbarth Cymru.

Mae Cyngor Powys wedi datgan argyfyngau natur a hinsawdd ac yn gwneud cynnydd gyda chynlluniau i addasu i'r newidiadau y bydd angen i bob un ohonom eu gwneud. Ac felly, yn y cyd-destun hwn, rwy’n amau’n gryf fod angen inni ymgysylltu llawer mwy ag unrhyw un a phawb sydd â chyfraniad posibl i’w wneud.
Wedi dweud hynny, ac i ateb eich cwestiwn yn uniongyrchol, fe wnes i rannu’r un bwrdd yng nghinio’r Llywydd ar ddiwrnod cyntaf Sioe Frenhinol Cymru 2022, gyda dau o weithwyr Bute, ond hyd y cofiaf ni chynhaliwyd unrhyw drafodaethau am unrhyw gynigion a oedd ganddynt ar gyfer Powys. Ychydig fisoedd yn ôl, bûm mewn cyfarfod gwybodaeth ar-lein gyda swyddogion Cyngor Sir Powys a Bute a chredaf fod swyddogion Bute wedi mynychu un o ddigwyddiadau CSP yn Sioe Frenhinol Cymru eleni a’u bod hefyd yn bresennol yng Nghynhadledd CLILC (WLGA) eleni, ond ni chefais unrhyw gysylltiad â nhw.

Rwyf hefyd yn ymwybodol fod yr Aelod Cabinet dros Bowys Gysylltiedig wedi cyfarfod â Bute Energy a datblygwyr mawr eraill mewn digwyddiad bord gron yr oedd wedi’i drefnu ynghylch budd cymunedol. Cafodd un cyfarfod dilynol gyda'r tîm budd cymunedol a bu hefyd mewn cyfarfod cyhoeddus cyn ymgeisio ar gyfer cynigion Coedwig Maesyfed, a gynhaliwyd gan y Cynghorydd Geoff Morgan. Deallaf hefyd iddo ymweld â stondin Bute yn Sioe Frenhinol Cymru, fel y gallech chi ac aelodau eraill fod wedi gwneud efallai, ond dydw i ddim yn gwybod mwy na hynny Fel fi, dydy o ddim yn ymwybodol ei fod wedi siarad ag unrhyw un yn Green Gen Cymru.

Cysylltwyd â’r gwasanaethau cynllunio ynghylch nifer o brosiectau gan Bute Energy/Green Gen Cymru mewn perthynas â cheisio cyngor cyn ymgeisio.

Fel cwestiwn atodol gofynnodd y Cynghorydd Thomas i’r Arweinydd ateb haeriad Bute Energy eu bod yn cynnal sgyrsiau ag uwch aelodau a Swyddogion a'u bod

yn helpu i gyflwyno'r cwricwlwm. Gofynnodd hefyd am sicrhau bod barn yr aelodau lleol yn cael ei hystyried. Dywedodd yr Arweinydd bod yn rhaid cael cyswllt rhwng swyddogion a sefydliadau masnachol ond bod yn rhaid parchu ffiniau a chadw at briodoldeb llwyr bob amser.

| 14. | CWESTIWN BRYS I'R ARWEINYDD GAN Y CYNGHORYDD ALED DAVIES |
|---|---|

Dywedodd yr Arweinydd nad oedd unrhyw wybodaeth ychwanegol berthnasol wedi dod i'r amlwg ers i'r Cabinet wneud y penderfyniad. Credai fod penderfyniad y Cabinet yn gadarn a'i fod yn fodlon iawn â'r ffordd yr oedd y Cabinet a'r swyddogion wedi ymdrin ag ef. Mewn ymateb i gwestiwn atodol y Cynghorydd Davies a fyddai’r Arweinydd yn ymddiswyddo pe bai’r Pwyllgor Craffu yn canfod bod yr adroddiad wedi camarwain y Cyngor, cadarnhaodd yr Arweinydd y byddai. Roedd yn gwbl hyderus fod penderfyniad y Cabinet yn gadarn.

**Y Cynghorydd Sir B Baynham (Cadeirydd)**